



HOUSES OF PARLIAMENT

Pecyn cymorth ar
gyfer digwyddiadau
a gweithgareddau
**Wythnos
Senedd y
DU**

ukparliamentweek.org
#WSDU16



**SYNIADAU AR GYFER EICH
DIGWYDDIAD NEU WEITHGAREDD**



Parliament Week
Engage. Explore. Empower.

SYNIADAU AR GYFER EICH DIGWYDDIAD NEU WEITHGAREDD

Cymryd rhan yn Wythnos Senedd y DU

Gall eich mudiad gymryd rhan yn Wythnos Senedd y DU mewn bron unrhyw fodd y dymunwch. O weithdai i sesiynau trafod, sesiynau ffilm ar y sgrin a pherfformiadau, gall eich mudiad wneud gwir wahaniaeth i'ch cynulleidfa ac i Senedd y DU.

I gael ei gynnwys yn y rhaglen, dylai eich digwyddiad helpu eich cynulleidfa i wneud y canlynol:

- **Ymgysylltu** â gwaith Senedd y DU, ASau ac aelodau Tŷ 'r Arglwyddi, trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfranogol
- **Archwilio** hanes Senedd y DU a meddwl am ei rôl yn nemocratiaeth
- **Rhoi grym** i'ch cynulleidfa gyfranogi yn Senedd y DU ac i leisio eu barn ar y materion sydd o bwys iddynt

Sylwch na ddylai digwyddiadau Wythnos Senedd y DU wneud y canlynol:

- Bod yn rhan o ymgyrch wleidyddol neu hyrwyddo safbwyntiau plaid benodol. Awgrymu i Wythnos Senedd y DU na Senedd y DU rannu safbwynt gwleidyddol penodol.
- Bod er elw. Cewch godi tâl ar bobl i fynyachu eich digwyddiad, ond rhaid i'r arian fynd tuag at gynnal y digwyddiad. Darllenwch ein telerau ac amodau llawn yma: www.ukparliamentweek.org/terms-and-conditions-2

Beth ydych chi am ei wneud, a pham?

Rydym yn argymhell eich bod chi'n dechrau trefnu eich digwyddiad neu weithgaredd ar gyfer Wythnos Senedd y DU gan feddwl am yr hyn rydych chi am ei gyflawni. Mae yna ddigon o resymau pam fydddech chi am gymryd rhan yn Wythnos Senedd y DU. Gallai'r rhain gynnwys:

- Cynnig rhywbeth newydd i'ch cynulleidfa bresennol
- Cyrhaedd cynulleidfa newydd
- Defnyddio Wythnos Senedd y DU fel cyfle i hyrwyddo'r gwaith rydych chi eisoes yn ei wneud
- Cyflawni angen a nodir ar gyfer eich cynulleidfa
- Awydd i roi cynnig ar rywbeth newydd

Mae'n bwysig meddwl am y budd y caiff eich mudiad o gymryd rhan. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu faint o amser sydd gennych i drefnu eich digwyddiad neu weithgaredd a faint o arian (os oes gennych) i wario arno. Cofiwch nad yw'r arian a warir ar weithgaredd o'r rheidrwydd yn pennu ei lwyddiant, ond yn hytrach eich gwaith paratoi a'ch creadigrwydd.

Nid yw Wythnos Senedd y DU yn cyllido unrhyw ddigwyddiad gan fudiad partner, ond os hoffech gael cyngor ar sut i godi arian i gynorthwyo eich digwyddiad, ewch i weld yr adran godi arian yn y pecyn cymorth Paratoi eich Digwyddiad neu Weithgaredd.

Pwy ydych chi am ei gyrraedd?

Meddyliwch am gynulleidfa darged eich digwyddiad oherwydd bydd hyn yn eich helpu i benderfynu beth fydd y digwyddiad yn ei gynnwys a sut byddwch chi'n ei hyrwyddo.

Bydd ambell bartner yn defnyddio Wythnos Senedd y DU fel cyfle i gyrraedd cynulleidfa newydd.

Digwyddiadau a gweithgareddau enghreifftiol

Dyma enghreifftiau o ddigwyddiadau i'ch sbarduno i feddwl am yr hyn gall eich mudiad ei drefnu ar gyfer Wythnos Senedd y DU:

Holi'r Ymgeiswyr

Yn nigwyddiadau Holi'r Ymgeiswyr, estynnir gwahoddiad i gynulleidfa ofyn cwestiynau i banelwyr – fel arfer ynglŷn â materion cyfoes. Mae digwyddiadau Holi'r Ymgeiswyr yn ffordd wych i'ch cynulleidfa holi gwleidyddion lleol, dylanwadwyr ac eraill (sydd â safbwynt gwleidyddol gwahanol) ynglŷn â'r materion sydd o bwys iddynt. Bydd angen i rywun niwtral gadeirio'r digwyddiad i hwyluso'r trafod – gan gadw'r panelwyr at amser ac annog cwestiynau o'r gynulleidfa.

Mae'r digwyddiadau hyn fel arfer yn addas i ystod eang o grwpiau, er y bydd angen i chi fod yn ofalus a sicrhau bod gan eich cynulleidfa hyder i ofyn cwestiynau. Gallwch ofyn i'ch cynulleidfa gyflwyno cwestiynau ymlaen llaw, sy'n rhoi amser iddynt feddwl am yr hyn maen nhw am ei ofyn ac yn rhoi cyfle i'ch panelwyr feddwl am eu hatebion.

Canfu ein gwerthusiad o Wythnosau Senedd y DU yn y gorffennol y mwynhaodd y gynulleidfa'r cyfle i ofyn cwestiynau, felly annogwch eich cadeirydd i gadw atebion y panelwyr yn weddol fyr.

Sesiwn Draford

Mae sesiynau trafod yn ffordd wych o ennyn diddordeb eich cynulleidfa gyfan mewn testun neu gwestiwn. Mae'n wych hefyd o ran datblygu hyder a helpu eich cynulleidfa i feddwl am y materion a'r testunau mewn ffyrdd newydd.

Mae Gwasanaeth Addysg y Senedd wedi cynhyrchu adnodd gwyh o'r enw **Get Debating** y gallwch ei ddefnyddio i gynnu trafodaethau. Mae'r adnodd yn hyblyg iawn – gallwch ei ddefnyddio ar gyfer bron unrhyw gynulleidfa, cyhyd â bod gennych amser gyda nhw i baratoi.

Sesiynau siarad a gweithdai

Gall gwahodd pobl i glywed sesiwn siarad neu i fynychu gweithdy helpu eich cynulleidfa i ddeall mwy am waith eich mudiad a pham ei fod yn cymryd rhan yn Wythnos Senedd y DU.

Cewch naill ai gyflwyno sesiwn siarad neu weithdy eich hun, neu cewch ofyn i siaradwr allanol wneud hynny.

Gallech estyn gwahoddiad i rywun o Wasanaeth Allgymorth ac Ymgysylltu Senedd y DU gynnal sesiwn rad ac am ddim i'ch cynulleidfa (ond cofiwch fod eu sesiynau'n hynod boblogaidd a bydd y llefydd ynddynt yn cael eu cymryd yn gyflym). Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Gwasanaeth Allgymorth ac Ymgysylltu Cymunedol y Senedd, ewch i www.parliament.uk/outreach

Y celfyddydau, cerddoriaeth, perfformio a barddoniaeth

Gall defnyddio'r celfyddydau, cerddoriaeth, perfformio a barddoniaeth fod yn ffordd wych o ennyn diddordeb cynulleidfa ac annog iddi feddwl am ddemocratiaeth a Senedd y DU mewn ffyrdd newydd. Yn y gorffennol, mae partneriaid Wythnos Senedd y DU wedi cynnal gweithdai barddoniaeth, estyn gwahoddiad i fardd fod yn 'Drydarydd Preswyl' am ddiwrnod a chynnal digwyddiadau cerddorol a dawn.

Serch hynny, mae'n werth sicrhau bod y cysylltiad rhwng eich digwyddiad neu weithgaredd a democratiaeth neu Senedd y DU yn glir iawn fel bod eich cynulleidfa'n gwybod yr hyn i'w ddisgwyl.

Gwybodaeth ynglŷn â Senedd y DU, ei gwaith ac Aelodau

Wrth drefnu eich digwyddiad, efallai y bydd angen i chi ganfod mwy am Senedd y DU a sut mae'n gweithio. Mae gan wefan y Senedd lwyth o wybodaeth ac adnoddau i'ch helpu.

Dyma lefydd i chi ddechrau:

- **Ynglŷn â'r Senedd** www.parliament.uk/about

- **Gwasanaeth Addysg y Senedd** www.parliament.uk/education

Gallwch hefyd gysylltu â Gwasanaeth Ymholiadau Tŷ 'r Cyffredin neu Wasanaeth Ymholiadau Tŷ 'r Arglwyddi a fydd yn fodlon ateb eich cwestiynau ynglŷn â gwaith pob Tŷ ac aelodaeth ohonynt.

Gwasanaeth Ymholiadau Tŷ 'r Cyffredin

hcenquiries@parliament.uk

020 7219 4272

Gwasanaeth Ymholiadau Tŷ 'r Arglwyddi

hinfo@parliament.uk

020 7219 3107